

Teitl y Swydd	Rheolwr Ymgyrchoedd Cyfathrebu
Tîm	Cyfathrebu
Cyflog	£35,000 + dibynnol ar brofiad

### Trosolwg o'r rôl

Bydd y Rheolwr Ymgyrchoedd Cyfathrebu yn meddu ar strategaeth Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu. Bydd hyn yn cynnwys llunio, ysgogi a chyflawni strategaeth yn unol â chanllawiau ac amcanion y brand ar ran portffolio cleientiaid Orchard sydd wedi ennill gwobrau.

Mae pencadlys Orchard wedi'i leoli yng Nghaerdydd canolog, fodd bynnag rydym yn cynnig y cyfle i weithio o bell fel rhan o'n polisi gweithio hyblyg. Nodwch y bydd y rôl hon yn gofyn am rywfaint o deithio bob mis hefyd.

### Sut i ymgeisio

I wneud cais, anfonwch CV cyfredol atom a chrynodeb (1 tudalen ar y mwyaf) yn nodi pam mai chi yw'r person cywir i ymuno â'n tîm i [jointheteam@thinkorchard.com](mailto:jointheteam@thinkorchard.com) erbyn canol dydd, Dydd Mawrth 11 Ebrill 2023. Bydd cyfweliadau yn cael ei cynnal ar Dydd Mawrth 25 Ebrill 2023.

Rydym yn derbyn nifer fawr o geisiadau felly er ein bod yn gwneud ein gorau i gysylltu â phawb, os nad ydych wedi clywed gennym o fewn mis o'ch cais, yn anffodus nid ydych wedi bod yn llwyddiannus.

### Cyfrifoldebau cyffredinol

Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch yn gyfrifol am Gysylltiadau Cyfryngau, Strategaeth Cyfathrebu mewn Argyfwng, Cysylltiadau Cyhoeddus a Strategaethau Cynnwys, gan weithio'n agos â thimau mewnol i ddyfeisio a chyflawni cynllun sy'n cael ei weithredu'n effeithiol. Byddwch hefyd yn:

- Gweithio i sicrhau bod brandiau'n cael eu hystyried fel arweinwyr agweddau yn eu marchnadoedd craidd.
- Dyfeisio, datblygu a chyflwyno Strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol sy'n canfod y sianelau cyfryngau cymdeithasol cywir ar gyfer pob marchnad i gynyddu enw da'r brand, yn ogystal ag ystyried y defnydd o gyfryngau cymdeithasol at bwrpas cynhyrchu galw.

Cyfrifol am ddatblygu, gweithredu, monitro a mesur gweithgaredd tactegol, gan sicrhau sylw cadarnhaol wrth adeiladu brand pwrpasol.

## Profiad angenrheidiol

Fel y Rheolwr Ymgyrchoedd Cyfathrebu, bydd angen i chi:

- Fod â phrofiad cryf o Gysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu Allanol
- Bod yn hyddysg mewn Cyfathrebu mewn Argyfwng
- Bod â gwybodaeth ymarferol a dealltwriaeth fanwl o Gynnwys Digidol a Strategaeth a Chyflawni Cyfryngau Cymdeithasol
- Meddu ar rywfaint o brofiad yn gweithio o fewn sefydliad aml-gynnyrch ac aml-wasanaeth
- Meddu ar rywfaint o brofiad yn rheoli pobl
- Gallu gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun
- Meddu ar sgiliau amlwg ac effeithiol o ran Rheoli Rhanddeiliaid
- Bod yn strategol ac yn ymarferol
- Arddangos agwedd hyderus, gadarnhaol
- Yn ddelfrydol â rhywfaint o brofiad o weithio i asiantaeth neu reoli asiantaeth o ochr y cleient
- Yn ddelfrydol yn siaradwr Cymraeg rhugl

## Pecyn buddion Orchard

Ein pobl sy'n ein gwneud mor arbennig. Dyna pam rydym yn cynnig pecyn buddion hael i bawb sy'n rhan o'n tîm. Dyma enghraifft o'r buddion sydd ar gael:

- Cyfleoedd gwaith hyblyg ac o bell
- Oriau craidd 10 – 4
- 25 diwrnod o wyliau blynyddol
- Oriau lles bob mis
- Cyllideb hyfforddi hael
- Yswiriant meddygol preifat
- Cynllun beicio i'r gwaith
- 8% pensiwn (mae hynny'n 4% wedi'i gyfateb gennych chi a ninnau)
- Digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol (fel diodydd ar ddiwedd y mis, clwb ffilm a phêl droed 5 bob ochr)

Rydym yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal, sy'n golygu y byddwn yn ystyried pob ymgeisydd sydd â chymwysterau addas ni waeth beth fo'u hunaniaeth neu fyngiant o ran rhywedd, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, crefydd neu gredoau, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, statws anabledd neu unrhyw nodwedd arall sydd wedi'i gwarchod. Rydym yn recriwtio ac yn datblygu ein pobl ar sail teilyngdod a'u hangerdd, ac rydym yn ymroddedig i greu amgylchedd cynhwysol i bob gweithiwr.

**Blaengar. Parchus. Dychymybol. Ystyriol. Rhagoriaeth.**